Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2021 Rhif 237 (Cy. 60)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

# Rheoliadau Pwyllgor Cydwasanaethau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Cymru) (Diwygio) 2021

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Pwyllgor Cydwasanaethau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Cymru) 2012 ("y prif Reoliadau"), yn benodol rheoliadau 2 a 7 o'r prif Reoliadau.

Mae rheoliad 2 yn diwygio'r diffiniad o "prif swyddogion" yn y prif Reoliadau i gynnwys prif swyddog neu brif weithredwr Awdurdod Iechyd Arbennig yng Nghymru. Mae rheoliad 2 hefyd yn diwygio'r diffiniad o "cynrychiolydd enwebedig" yn y prif Reoliadau i gynnwys swyddog enwebedig i bob Awdurdod Iechyd Arbennig.

Mae rheoliad 3 yn diwygio rheoliad 7 o'r prif Reoliadau i gynnwys yn rheoliad 7(2) gyfeiriad at brif swyddog neu brif weithredwr Awdurdod Iechyd Arbennig, ac yn rheoliad 7(3) a (4) gyfeiriad at swyddog-aelod o Awdurdod Iechyd Arbennig y prif swyddog neu'r prif weithredwr.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

**2021 Rhif 237 (Cy. 60)**

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau Pwyllgor Cydwasanaethau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Cymru) (Diwygio) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *3 Mawrth 2021* |
| *Gosodwyd gebron Senedd Cymru* | *4 Mawrth 2021* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**) a pharagraff 4(1)(f) o Atodlen 3 iddi, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Pwyllgor Cydwasanaethau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Cymru) (Diwygio) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2021.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y prif Reoliadau" yw Rheoliadau Pwyllgor Cydwasanaethau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Cymru) 2012(**2**).

**Diwygio rheoliad 2 o'r prif Reoliadau**

**2.**—(1) Mae rheoliad 2 (dehongli) o'r prif Reoliadau wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(**1**) 2006 p. 42.
(**2**) O.S. 2012/1261 (Cy. 156), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(2) Yn y diffiniad o "prif swyddogion", ar y diwedd mewnosoder ", a phrif swyddog neu brif weithredwr pob Awdurdod Iechyd Arbennig a sefydlwyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 22 o'r Ddeddf".

(3) Yn y diffiniad o "cynrychiolydd enwebedig", ar y diwedd mewnosoder "ac, mewn perthynas â phrif swyddog Awdurdod Iechyd Arbennig, swyddog-aelod o Awdurdod Iechyd Arbennig y prif swyddog".

**Diwygio rheoliad 7 o'r prif Reoliadau**

**3.**—(1) Mae rheoliad 7 (gofynion cymhwystra i aelodau'r pwyllgor) o'r prif Reoliadau wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (2), yn lle "Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol neu Fwrdd Iechyd Lleol" rhodder "Fwrdd Iechyd Lleol, i Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol neu fel prif swyddog neu brif weithredwr i Awdurdod Iechyd Arbennig".

(3) Ym mharagraff (3), yn lle "neu fel cyfarwyddwr gweithredol Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol y prif swyddog" rhodder ", fel cyfarwyddwr gweithredol o Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol y prif swyddog neu fel swyddog-aelod o Awdurdod Iechyd Arbennig y prif swyddog".

(4) Ym mharagraff (4), yn lle "neu fel cyfarwyddwr gweithredol o Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol y prif swyddog" rhodder ", fel cyfarwyddwr gweithredol o Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol y prif swyddog neu fel swyddog-aelod o Awdurdod Iechyd Arbennig y prif swyddog".

*Vaughan Gething*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
un o Weinidogion Cymru
3 Mawrth 2021